# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Swyddogaethau corff cynghori: adroddiadau a chyngor*

### 44 Corff cynghori

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

- (a) sefydlu corff corfforaethol i arfer swyddogaethau'r corff cynghori o dan y rhan hon, neu
- (b) dynodi person i fod yn gorff cynghori at ddibenion y Rhan hon.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ddynodi person onid yw'r person yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(3) Os nad oes rheoliadau o dan is-adran (1) mewn grym, y corff cynghori yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a), yn benodol, gynnwys darpariaeth ynghylch—

- (a) statws ac aelodaeth y corff a sefydlir gan y rheoliadau;
- (b) cyflogi staff gan y corff;
- (c) tâl, lwfansau a phensiynau ar gyfer aelodau a staff;
- (d) trefniadaeth a gweithdrefn y corff;
- (e) adroddiadau a chyfrifon (gan gynnwys archwilio).

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r corff mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yn is-adran (4).

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol neu arbed, a all gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfiad.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Swyddogaethau corff cynghori: adroddiadau a chyngor yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 31 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 44 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 45 Adroddiadau cynnydd

(1) Cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru yn nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd—

(i) y cyllidebau carbon sydd wedi eu gosod o dan y Rhan hon,

(ii) y targedau allyriadau interim, a

(iii) targed allyriadau 2050,

(b) a yw'r cyllidebau a'r targedau hynny yn debygol o gael eu cyrraedd, ac

(c) unrhyw fesurau pellach sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y cyllidebau a'r targedau hynny.

(2) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 41, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) y modd y cyrhaeddwyd neu nas cyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod,

(b) y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i leihau allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr yn ystod y cyfnod, a

(c) y materion a nodir yn is-adran (1).

(3) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad o dan adran 43 mewn perthynas â 2030 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) a yw'r targed allyriadau interim ar gyfer 2040 a tharged allyriadau 2050 y targedau uchaf y gellir eu cyflawni, a

(b) os nad y targed uchaf y gellir ei gyflawni yw'r naill neu'r llall ohonynt, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(4) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad o dan adran 43 mewn perthynas â 2040 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) a yw targed allyriadau 2050 y targed uchaf y gellir ei gyflawni,

(b) os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(5) Caniateir cyfuno adroddiad o dan is-adran (3) neu (4) ag adroddiad o dan is-adran (2).

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o bob adroddiad a dderbynnir ganddynt o dan yr adran hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl cael yr adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 45 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 46 Dyletswydd ar y corff cynghori i ddarparu cyngor a chymorth

Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r corff cynghori roi i Weinidogion Cymru y cyngor, y dadansoddiad, yr wybodaeth neu'r cymorth arall sy'n berthnasol i—

(a) arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Rhan hon, neu

(b) unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 46 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 47 Canllawiau i'r corff cynghori

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r corff cynghori roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori ynghylch cynnwys unrhyw gyngor neu adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 47 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Swyddogaethau corff cynghori: adroddiadau a chyngor yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 31 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(a)
- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(b)